**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – 29 Gorffennaf 2026**

**Cwestiynau i'r Bwrdd**

| Y Cwestiwn a Ofynnwyd | Ymateb |
|---|---|
| **1. Canolfan Iechyd Tywyn (Practis Meddygon Teulu)**<br><br>Mae BIPBC yn rhedeg Canolfan Iechyd Tywyn. Rwyf wedi ffonio sawl gwaith i gael apwyntiad ac wedi clywed neges yn dweud "nid oes clinigwyr ar hyn o bryd. Ffoniwch 111 os oes gennych argyfwng" Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i fynd i'r afael â'r diffyg meddygon teulu a staff gweinyddol? Oherwydd mae'r lefelau presennol yn anniogel. | Rheolir Canolfan Iechyd Tywyn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac fel gwasanaethau gofal sylfaenol eraill ledled Cymru, mae'n gweithredu o fewn amgylchedd gweithlu sy'n heriol ar y lefel genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n rhagweithiol i recriwtio a chadw staff clinigol a gweinyddol ac i gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol i drigolion lleol.<br><br>Rydym yn ymwybodol bod rhai cleifion wedi profi anawsterau wrth geisio cael apwyntiadau ac rydym yn cydnabod yr effaith a'r rhwystredigaethau y gall hyn ei achosi. Rydym yn ymateb o ddifri i'r pryderon hyn ac yn parhau i fonitro mynediad at wasanaethau yn fanwl.<br><br>O ran pryderon a fynegwyd ynglŷn â neges ffôn y practis, nid yw'r recordiad presennol yn hysbysu cleifion nad oes clinigwyr ar gael. Yn hytrach, mae'n cynnig gwybodaeth i gleifion sy'n profi argyfyngau sy'n bygwth bywyd, yn cyfeirio pobl sydd â chyflyrau priodol at wasanaethau fferylliaeth gymunedol, ac yn esbonio proses llywio gofal y practis i helpu i sicrhau y caiff cleifion eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol.<br><br>Mae'r practis wedi profi cyfnodau o bwysau gweithredol sylweddol sy'n deillio o gyfuniad o absenoldebau staff hirdymor, anawsterau recriwtio a heriau gweithlu ehangach sy'n effeithio ar ofal sylfaenol. Yn ystod y cyfnodau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd a staff y practis wedi gweithio i gynnal gwasanaethau diogel trwy gynllunio'r gweithlu, trefniadau cymorth ychwanegol a pharhau â gweithgarwch recriwtio.<br><br>Fel rhan o waith parhaus y Bwrdd Iechyd i reoli a goruchwylio'r practis, rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu i wella mynediad a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r capasiti clinigol sydd ar gael. Mae cynllun |

| | |
|---|---|
| | gwella yn cael ei weithredu i gryfhau prosesau rheoli apwyntiadau, optimeiddio'r defnydd o adnoddau clinigol a gwella profiadau cleifion o gyrchu gwasanaethau gofal.<br><br>Er y bydd angen amser i fynd i'r afael yn iawn â'r heriau hyn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau cynaliadwy, cynorthwyo ein gweithlu a sicrhau bod cleifion yn parhau i gael gofal diogel, a phrydlon sy'n cyflawni safonau uchel. |
| **Y Cwestiwn a Ofynnwyd** | **Ymateb** |
| **2.** **Ysbyty Cymuned Tywyn**<br><br>Fel claf newydd yn Nhywyn sydd wedi symud o Bowys, hoffwn ddeall pam nad yw'r cyfleuster anhygoel yn y ganolfan iechyd yn llawn gwasanaethau. Nid ydynt yn cynnig apwyntiadau arferol neu hyd yn oed y pethau sylfaenol megis tynnu cwyr o glustiau. Bydd yn rhaid cael apwyntiad brys yn achos proses syml fel hyn. Yna brysbennu ym Mangor. Yna taith unffordd sy'n para mwy na dwyawr i gael triniaeth sy'n para 5 munud. Nid yw'n gost effeithiol i'r trethdalwr nac i'r claf. Yn waeth na hynny, byddant yn dweud wrthych chi am ddefnyddio darparwyr preifat.<br><br>Nid yw'r wefan yn addas at y diben, ac er eu bod yn dweud eu bod yn cynnig gwasanaeth 'brysbennu', cyntaf i'r felin yw hi mewn gwirionedd. Mae angen i rywun ymweld â Chanolfan Iechyd y Trallwng i weld sut mae'r ddarpariaeth honno'n cael ei rhedeg. Mae potensial y ganolfan iechyd yn enfawr. Sut allwch chi gyfiawnhau peidio â chyflawni potensial llawn y ganolfan i wella'r gofal ofnadwy a pheryglus rydych chi ei 'ddarparu' i'r ardal gyfan. Mae'n wastraff llwyr o arian trethdalwyr ac yn wasanaeth di-glem. | Mae'r gwasanaethau canlynol ar gael yn lleol:<br><br>**Ar y safle:**<br>• Meddygon Teulu / Canolfan Iechyd<br>• Clinig Gwythïen-bigo<br>• Uned Mân Anafiadau, Llun – Gwener, 8am-8pm<br>• Ystafell Driniaethau<br>• Pelydr X<br>• Nyrs Practis / Nyrsys sy'n Rhagnodi<br>• Clinig Cleifion Allanol<br>• Hwb Lles<br><br>**Yn y Gymuned:**<br>• Tîm Adnoddau Cymunedol<br>• Gwasanaeth Ambiwlansys<br>• Gwasanaeth Nyrsys Ardal 24/7<br>• Fferylliaeth Gymunedol<br>• Optometrydd<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Gweithwyr Cymdeithasol<br>• Nyrsys Ysgol<br>• Bydwreigiaeth Gymunedol<br>• Nyrs methiant y galon<br>• Bydwraig |

| | |
|---|---|
| | • Offthalmoleg<br>• Awdioleg<br>• Sbirometreg<br>• Gofal Preswyl a Gofal yn y Cartref<br>• Tuag Adref<br><br>**Gwasanaethau sy'n ymweld ag Ysbyty Cymuned Tywyn**<br>• Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol<br>• Retinopathi Diabetig<br>• Grŵp Dirywiad Macwlaidd<br>• Tuag Adref<br>• Gwasanaeth Mewngymorth Iechyd Meddwl<br>• Therapi Galwedigaethol<br>• Ffisiotherapi<br>• Adran Cleifion Allanol<br>• Podiatreg<br>• Nyrs Diabetes Arbenigol<br>• Tîm Gofal Lliniarol<br>• Gwasanaeth Ymataliaeth<br>• Ystafell Triniaethau Dietegydd<br>• Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd<br>• Ymarferydd Clefyd Parkinson<br><br>**Gwasanaethau iechyd meddwl:**<br>• Gwasanaethau Cwnsela<br>• Hwb Lles<br>• OPMH/CPNs<br>• Gwasanaethau Iechyd Meddwl Acíwt<br><br>Mae nifer o wasanaethau'r trydydd sector ar gael yn yr ardaloedd lleol i gynorthwyo i gynnal iechyd a lles pobl. Byddwn yn sicrhau y caiff gwefannau eu diweddaru a bod gwybodaeth ar gael yn lleol. |

| Y Cwestiwn a Ofynnwyd | | Ymateb |
|---|---|---|
| 3. | Ysbyty Cymuned Tywyn | Rydym yn cydnabod lefel ddwys y pryder yn y gymuned ac rydym wedi gwrando'n ofalus ar y safbwyntiau a fynegwyd am Ward Dyfi a'r angen ehangach am ofal iechyd lleol hygyrch.<br><br>Rydym yn ystyried bod unrhyw awgrym bod pobl yn marw oherwydd diffyg gofal iechyd yn fater difrifol iawn. Os yw hyn yn ymwneud ag unigolyn neu brofiad penodol, byddem yn gofyn am y manylion fel y gellir ymchwilio'n briodol i'r amgylchiadau.<br><br>Nid oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi'i wneud ynglŷn â dyfodol gwasanaethau yn Ysbyty Cymunedol Tywyn. Pwrpas yr ymgynghoriad arfaethedig yw gwrando ar bopeth y dymuna'r gymuned ei ddweud cyn i'r Bwrdd wneud unrhyw benderfyniad. Beth bynnag yw'r canlyniad, cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd yw darparu gwasanaethau sy'n ddiogel, hygyrch a chynaliadwy i bobl Tywyn a'r ardal gyfagos. |
| Dymunaf ofyn pam ydych chi'n diystyru barn pobl Tywyn, ac wrth wneud hynny, a ydych chi'n edifarhau o gwbl am y ffaith fod pobl yn marw oherwydd diffyg gofal iechyd. | | |

| Y Cwestiwn a Ofynnwyd | | Ymateb |
|---|---|---|
| 4. | Ysbyty Cymuned Tywyn | Mae ailagor Ward Dyfi fel ward cleifion mewnol yn dal yn un o'r opsiynau sy'n cael ei ystyried ac fe'i cynhwysir yn y cynigion a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd. Nid oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi'i wneud ac nid argymhellir unrhyw opsiwn a ffafrir ar hyn o bryd.<br><br>Mae manylion llawn y sefyllfa ddiweddaraf ar gael yma: [Llunio Dyfodol Ysbyty Cymuned Tywyn - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr] |
| Pam nad yw ailagor Ysbyty Cymuned Tywyn ar y rhestr o opsiynau ar gyfer cynlluniau'r dyfodol? Mae'r holl holiaduron a chyfarfodydd yn dangos bod ar bobl Tywyn eisiau ac angen ailagor ward â gwelyau i gleifion mewnol yn yr Ysbyty unwaith eto, a chawsant eu hysbysu mai rhywbeth dros dro oedd cau'r ward. | | |

| Y Cwestiwn a Ofynnwyd | | Ymateb |
|---|---|---|
| 5. | Ward Dyfi, Ysbyty Tywyn | Gwnaed y penderfyniad i gau Ward Dyfi dros dro oherwydd nad oedd modd cynnal lefelau staffio diogel a chynaliadwy. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i archwilio opsiynau cynaliadwy ar gyfer dyfodol darpariaeth gofal iechyd yn yr ardal. Mae ailagor Ward Dyfi fel ward cleifion mewnol yn dal yn un o'r opsiynau sy'n cael ei ystyried ac fe'i cynhwysir yn y cynigion a |
| Pan ddywedodd y Bwrdd wrth Eluned Morgan ym mis Mehefin 2023 fod "y Bwrdd Iechyd yn cydweithio â'i bartneriaid â'r nod cyffredin i adfer y | | |

| | |
|---|---|
| gwasanaeth sydd wedi'i atal dros dro", sut ydych chi'n esbonio methiant y Bwrdd i anrhydeddu'r addewid hwnnw? | fydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd. Nid oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi'i wneud ac nid argymhellir unrhyw opsiwn a ffafrir ar hyn o bryd.<br><br>Mae manylion llawn y sefyllfa ddiweddaraf ar gael yma: Llunio Dyfodol Ysbyty Cymuned Tywyn - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Y Cwestiwn a Ofynnwyd** | **Ymateb** |
| **6. Ward yr Ysbyty**<br><br>Pam na wnewch chi ateb cwestiynau'n onest ynglŷn â pha un ai a fydd y ward yn ein hysbyty yn ailagor ai peidio? | Mae ailagor Ward Dyfi fel ward cleifion mewnol yn dal yn un o'r opsiynau sy'n cael ei ystyried ac fe'i cynhwysir yn y cynigion a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfarfod ddydd Iau 30 Gorffennaf i'w cymeradwyo fel y gellir ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch. Bydd ymgynghoriad 12 wythnos yn digwydd yn yr hydref a byddem yn annog pobl i ddweud eu dweud.<br><br>Mae manylion llawn y sefyllfa ddiweddaraf ar gael yma: Llunio Dyfodol Ysbyty Cymuned Tywyn - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Y Cwestiwn a Ofynnwyd** | **Ymateb** |
| **7. Gofal Iechyd ym Mro Dysynni**<br><br>Pam nad yw'r Bwrdd wedi comisiynu adroddiad gan Dr Clara Day, y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, ynghylch effaith ansawdd sâl y gofal iechyd yr ydym wedi bod yn ei brofi ym Mro Dysynni? | Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgymryd ag adolygiad ynghylch dyfodol Ysbyty Cymuned Tywyn a'r gwasanaethau cymunedol a ddarperir i boblogaeth yr ardal gyfagos. Bydd yr ymgynghoriad yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth am safbwyntiau preswylwyr, cleifion, staff, partneriaid a rhanddeiliaid ynghyd â thystiolaeth glinigol a thystiolaeth ynghylch gwasanaethau. Bydd yr adborth a gawn, ynghyd â gwybodaeth am ansawdd a pherfformiad, yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol a sicrhau y gall gwasanaethau'r dyfodol ddiwallu anghenion y boblogaeth leol yn y ffordd orau. Fel y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, byddaf yn parhau i oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau drwy'r trefniadau llywodraethu sydd wedi'u sefydlu yn y Bwrdd Iechyd. Pe bai tystiolaeth yn dod i'r amlwg yn dynodi bod angen adolygiad penodol, byddai'r Bwrdd yn ystyried hynny trwy gyfrwng ei brosesau arferol. |

| Y Cwestiwn a Ofynnwyd | | Ymateb |
|---|---|---|
| **8.** | **Y Llw Hipocratig** | |
| Ydy'r aelodau yn cadw at addewid y Llw Hipocratig? | | Mae'r Llw Hipocratig yn dal yn arwydd pwysig o foeseg meddygaeth, ond nid yw'n ofynnol i staff y GIG dyngu'r llw hwnnw. Yn hytrach na hynny, mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol gofal iechyd gadw at ofynion codau proffesiynol  a safonau rheoleiddio modern, a gwerthoedd y GIG. Mae'r rhain yn sicrhau bod lles, diogelwch, urddas a chyfrinachedd cleifion yn elfennau anhepgor ym mob agwedd ar ein gwaith. Yn ymarferol, felly, mae'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â'r Llw Hipocratig yn parhau i lywio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ledled y GIG, ond cânt eu mynegi trwy safonau modern yn hytrach na thrwy gyfrwng y llw gwreiddiol. |

| Y Cwestiwn a Ofynnwyd | | Ymateb |
|---|---|---|
| **9.** | **Cysylltu â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** | |
| Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd, dywedodd y Cadeirydd: "A allaf hefyd ddweud, fel y byddaf yn ei ddweud yng nghyfarfodydd y Bwrdd, os dymunwch gysylltu â ni unrhyw bryd, peidiwch ag aros nes daw gyfarfod cyffredinol blynyddol. Gallwch anfon gohebiaeth ataf i ac at Carol ar unrhyw adeg a byddwn yn gwneud ein gorau glas i ymateb.  Yn yr un modd, os byddwch am i ni ymweld â'ch cymuned, i  siarad am wasanaethau iechyd a lles efallai, byddwn yn fodlon iawn gwneud hynny, byddwn yn mynd i leoedd ledled y rhanbarth cyfan i gynnal sgyrsiau.  Rydym wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Byddwn yn fodlon iawn gwneud hynny eto. Felly, cysylltwch â ni unrhyw bryd."<br><br>Felly dilynais gyngor y Cadeirydd ac ysgrifennais ato ar 30 Gorffennaf 2025, yn gofyn am y sgwrs y dywedodd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y byddai'n fodlon iawn ei chael. Gofynnais hefyd i'r Cadeirydd annog y Prif Weithredwr i wneud yr un peth, gan nad oedd hi wedi ymateb i'm cais am gyfarfod i drafod yr un materion. Ni chefais unrhyw gydnabyddiaeth nac ateb. Wn i ddim beth yn union aeth o'i le ond a allaf i ofyn am gael atgoffa'r Cadeirydd am yr hyn a ddywedodd y llynedd ac y caiff cyfarfod ei drefnu cyn gynted ag y bo'n gyfleus? | | Diolch am eich cwestiwn.<br><br>Er mwyn sicrhau y gallwn ddeall ac ystyried eich pryderon yn iawn, bydd Pennaeth y Staff yn cysylltu â chi ac yn trefnu trafodaeth ar ran y Prif Weithredwr i ddechrau. Yn dilyn y drafodaeth honno, gallwn ystyried a fyddai rhagor o ymgysylltu yn ddefnyddiol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniadau a geir gan gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd i'n helpu i wella ein gwasanaethau. Ceir nifer o gyfleoedd i unigolion ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys dod i gyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yng ngŵydd y cyhoedd, cyfranogi mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu, a rhannu eu safbwyntiau trwy fforymau ymgysylltu sefydledig.<br><br>Byddai unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr yn canolbwyntio fel arfer ar faterion penodol neu faterion lle byddai trafodaeth o'r fath yn cynorthwyo i sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Byddem hefyd yn annog unigolion i wneud defnydd o'r cyfleoedd ehangach sydd ar gael i ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd a chyfrannu at ymdrechion sy'n mynd rhagddynt i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau. |

| Y Cwestiwn a Ofynnwyd | | Ymateb |
|---|---|---|
| **10.** | **Argymhellion ynghylch Gwasanaethau Iechyd Meddwl** | Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro cynnydd o ran argymhellion Coleg Brenhinol y Seiciatryddion drwy ei Grŵp Goruchwylio a Datblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mae cynnydd wedi'i wneud ynghylch pob un o'r deg thema, gan gynnwys sefydlogrwydd y gweithlu, llywodraethu, ymgysylltu â staff, gwasanaethau dementia, a datblygu Fframwaith Deilliannau Gwasanaethau Iechyd Meddwl.<br><br>Yn yr adolygiad diweddaraf, roedd lefel cynnydd 30 o argymhellion yn ambr a chwech yn goch, ac roedd cynlluniau gweithredu ar waith. Mae tystiolaeth bellach yn cael ei dilysu er mwyn sicrhau bod unrhyw argymhellion sydd wedi'u ailddosbarthu fel rhai gwyrdd yn cael eu hategu gan welliant parhaus. Adroddir am y sefyllfa ddiweddaredig trwy drefniadau goruchwylio sefydledig y Bwrdd Iechyd. |
| Gan droi eto ar yr 85 o Argymhellion nad allai'r RCP gynnig sicrwydd 'golau gwyrdd' yn eu cylch. A all y Bwrdd Iechyd gadarnhau ym mis Awst 2026, 8 mis ar ôl i'r EAG ddirwyn i ben, faint o'r 53 Baner Goch ac Ambr hynny y gellir ailddiffinio Gwyrdd yn ddiogel. Dylai'r Grŵp Goruchwylio a Datblygu Gwasanaethau Iechyd Meddwl fod â'r wybodaeth sylfaenol hon. | | |
| **Y Cwestiwn a Ofynnwyd** | | **Ymateb** |
| **11.** | **Chwythu'r Chwiban a Chwynion Cyflogaeth** | Yn ystod y cyfnod, cofnodwyd saith achos chwythu'r chwiban, gan gynnwys un achos a godwyd ar y cyd.<br><br>Roedd 30 achos a adroddwyd arnynt yn ffurfiol hefyd. Nid yw achosion chwythu'r chwiban wedi cael eu cofnodi'n hanesyddol trwy ESR, felly efallai na fydd ffigurau sy'n dyddio'n ôl i 2012 yn rhoi darlun cyflawn. |
| Ers 2012, hynny yw, gan gynnwys Holden (ac yn cynnwys Cwynion Cyflogaeth Ffurfiol Cam 2 ar y Cyd gan Seicolegwyr ar 1 Rhagfyr 2020**), sawl gwaith y mae staff BIPBC yn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl wedi chwythu'r chwiban, wedi chwythu'r chwiban ar y cyd ac wedi cyflwyno cwynion cyflogaeth ar y cyd? Sawl honiad o fwlio sydd wedi'u gwneud yn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu? | | |
| **Y Cwestiwn a Ofynnwyd** | | **Ymateb** |
| **12.** | **Gwasanaeth Arennol** | Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn derbyn taliad blynyddol sefydlog ar gyfer Gwasanaethau Arennol, waeth beth yw nifer y cleifion sy'n cael eu trin. Mae adolygiad yn ystyried p'un ai i symud at system yn seiliedig ar gost gytunedig. Cyn y caiff unrhyw newidiadau eu gwneud, caiff yr effaith |
| Pam mae PBC yn amharod i ymrwymo i drefniant cost a chyfaint gyda Rhwydwaith Arennau Cymru / y Cyd-bwyllgor Comisiynu? Mae'r ddau fwrdd iechyd arall a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau arennol (Caerdydd ac Abertawe) yn defnyddio'r trefniant hwn (Rhannu risg) | | |

| | |
|---|---|
| | ariannol ei hasesu er mwyn sicrhau na fyddai'n cynyddu costau'n gyffredinol. |
| **Y Cwestiwn a Ofynnwyd** | **Ymateb** |
| **13. Aelod Cyswllt o'r Pwyllgor dros Gymru Cymdeithas Ysbytai Cymunedol**<br><br>Gwella Gwasanaethau Gofal Iechyd Trwy Ddefnyddio Ysbytai Cymunedol<br><br>Mae delio â thrawsnewid ym maes gofal iechyd gan ddefnyddio technolegau sy'n prysur newid yn yr oes sydd ohoni'n anodd. Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025-26 yn adlewyrchu hyd a lled yr her honno.<br><br>Gan fy mod yn ymweld ag ysbytai cymunedol mewn llawer o rannau o Gymru fel claf, gofalwr, gwirfoddolwr LLAIS ac ymwelydd, rwy'n sylwi ar lawer o botensial nad yw'n cael ei ddefnyddio digon. Er gwaethaf y mantra "Gofal yn nes at y cartref", bu tueddiad yng Nghymru i glystyru llawer o wasanaethau ar y safleoedd acíwt sy'n cael eu defnyddio'n ormodol. O ystyried y technolegau digidol â chymorth deallusrwydd artiffisial (AI) sydd ar gael yn yr oes sydd ohoni, mae darparwyr gofal iechyd blaenllaw yn UDA a gwledydd eraill yn dadlau "bod canoli'n gallu arwain at well rheolaeth ond nad yw'n gallu sicrhau gwelliannau. Mae darpariaeth gofal effeithiol yn cael ei datganoli fwyfwy a'i threfnu o amgylch cyswllt cleifion ag asedau lleol".<br>Wrth gyfrannu at yr "Adolygiad o Arweinyddiaeth y Sefydliad" a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd y Bwrdd yn dilyn cyfeiriad nifer o Fyrddau Gofal Integredig (ICB) yn Lloegr o ran ffafrio dosbarthu mwy o wasanaethau gofal "uwch" i asedau ysbytai lleol, yn gyflym? | Mae'r Bwrdd yn cydnabod potensial sylweddol ysbytai cymunedol ac asedau lleol o ran cyflawni uchelgais cynnig gofal yn nes at y cartref.<br>Mae rhaglen genedlaethol Cymunedol o'r Cychwyn (CbD) wedi'i gwreiddio ar yr egwyddor y dylai gofal gael ei gynnig mewn lleoliadau cymunedol yn ddiofyn, ac y dylai gofal acíwt perthnasol gael ei gynnig lle bo hynny'n briodol ar lefel glinigol. Nod y rhaglen yw symud gweithgarwch, adnoddau a buddsoddiadau tuag at ofal cymunedol trwy dimau amlddisgyblaethol mewn cymdogaethau, gwell cydlyniant o ran gofal, rheoli iechyd y boblogaeth ac integreiddio cryfach ar draws gwasanaethau.<br><br>Mae rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn yn cydnabod bod modelau sy'n canolbwyntio ar ysbytai yn parhau i fodoli a bod angen newid sylfaenol tuag at fodelau rhagweithiol sydd ar gael yn y gymuned. Mae'r ffocws presennol ar ddatblygu'r mesurau a'r metrigau sydd eu hangen i olrhain symudiad gwasanaethau at leoliadau cymunedol ac i werthuso'r effaith dros amser.<br><br>Felly mae cyfeiriad y Bwrdd yn cyd-fynd ag atgyfnerthu gofal cymunedol a gwneud defnydd gwell o asedau lleol y bydd rhaglen waith Cbd yn eu gyrru ymlaen i arwain at ehangu gwasanaethau uwch mewn ysbytai cymunedol y bydd angen ei gynllunio, ei seilio ar dystiolaeth a'i wneud yn gynaliadwy er mwyn cynnig gofal sy'n ddiogel ac o ansawdd uchel i boblogaeth Gogledd Cymru. |